**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 22 Mehefin 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | F M Gordon | L R Jones |
| S Joy | S Pritchard | T M White |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |
| Sarah Hughes | Pennaeth yr Uned Gwelliant a Monitro, Cynllunio ac Adnoddau Addysg |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins

---

**4 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**5 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022 a'r Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 24 Mai 2022 fel cofnod cywir.

**6 Cylch Gorchwyl.**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cylch gorchwyl a ddosbarthwyd a dywedodd y byddai'r Pwyllgor yn anelu at ganolbwyntio ar bynciau sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau corfforaethol a gyflwynir i'r cyngor ym mis Gorffennaf.

Cyfeiriodd at y gwahanol rolau y mae'r Pwyllgorau Datblygu Corfforaethol a chraffu yn eu chwarae, ond amlinellodd y gall perthnasoedd gweithio agos rhwng y ddau fod yn fuddiol.

Nodwyd y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor.

## 7 Cefnogi'r heriau i ddysgwyr wrth adfer o'r pandemig.

Amlinellodd y Cadeirydd fod yr adroddiad a ddosbarthwyd wedi'i lunio o ganlyniad i waith y Pwyllgorau Datblygu Polisi blaenorol dros y flwyddyn ddinesig ddiwethaf wrth edrych ar faterion i gynorthwyo a chefnogi dysgwyr, yn enwedig dysgwyr sy'n agored i niwed yn ystod ac ar ôl y pandemig.

Amlinellodd fod holl gyfnod pandemig COVID-19 wedi bod yn amser hynod anodd i bobl ifanc, athrawon, staff cefnogi mewn ysgolion a staff mewnol yr Adran Addysg.

Cyfeiriodd Helen Morgan-Rees at yr adroddiad a oedd yn ceisio ystyried goblygiadau adferiad o'r pandemig i ddysgwyr yn ysgolion Abertawe.

Amlinellodd y cefndir i waith y Pwyllgorau Datblygu Polisi blaenorol, y gwaith casglu tystiolaeth a wnaed a'r wybodaeth/data a gasglwyd ac a goladwyd gan y gwahanol unigolion a sefydliadau a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn. Amlinellwyd a manylwyd ar yr wybodaeth yn yr adroddiad.

Dywedodd er bod rhai o’r cynigion yn yr adroddiad eisoes wedi dechrau cael eu gwreiddio mewn ysgolion, pe bai’r prif gorff o argymhellion yn cael eu cefnogi gan y Pwyllgor a’u cytuno gan y Cabinet ym mis Gorffennaf, byddai gweithredu a chyflwyno’r rhain yn dibynnu ar adnoddau a staffio ar gyfer ysgolion a'r adran.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r adroddiad a'i ddeg argymhelliad a'i gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf.

## 8 Cynllun Gwaith

Dywedodd y Cadeirydd, yn dilyn y drafodaeth a gafwyd ar yr eitem yn ymwneud â'r cylch gorchwyl yn gynharach yn yr agenda, ei fod wedi cynnig bod y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, yn cael cyflwyniad/diweddariad gan yr adran i gynnwys materion fel y blaenoriaethau corfforaethol perthnasol ac i gynnwys peth gwybodaeth gefndir i aelodau ar nifer yr ysgolion/staff/adeiladau etc.

**Cytunwyd** y bydd yr eitem ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf fel yr amlinellir uchod.

## 9 Dyddiad ac Amser Y Cyfarfodydd.

Cynigodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn parhau i gyfarfod am 4pm ar ddydd Mercher fel y maent wedi gwneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Cytunodd pob aelod â'r cynnig a bydd y cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal am 4pm ar ddydd Mercher.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.33 pm

**Cadeirydd**